**CYNGOR BRO MORGANNWG**
**SWYDDFEYDD DINESIG, HEOL HOLLTWN,**
**Y BARRI CF63 4RU**

**RHODDIR HYSBYSIAD** yn unol ag adran 42(1) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, bod Cyngor Bro Morgannwg, ar ôl ymgynghori â'r bobl ofynnol, yn cynnig gwneud addasiadau a reoleiddir i'r ysgolion canlynol drwy sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at Addasiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys cyflwyno neu ddileu darpariaeth AAA neu unrhyw newid yn y math o ddarpariaeth o'r fath.

**Crynodeb o'r cynnig:**

Mae'r cynnig yn ymwneud ag Ysgol Uwchradd y Whitmore sy'n ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'n darparu ar gyfer dysgwyr rhwng 11 a 19 oed ac mae ganddi gapasiti ar gyfer 1,110 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd, mae 1,132 disgybl ar y gofrestr. Mae'r ysgol yn: Porth Rd W, y Barri CF62 8ZJ

Byddai'r cynnig yn arwain at sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore a fyddai'n darparu 20 lle uwchradd i ddisgyblion â chyflwr ar y sbectrwm awtistig. Mae'r 20 lle yn ychwanegol at y 1,110 o leoedd sydd ar gael yn yr ysgol ar gyfer addysg y brif ffrwd. Byddai derbyniadau i'r ganolfan adnoddau arbenigol yn digwydd drwy Banel Emosiynol Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl y Cyngor.

Cynigir bod y ganolfan adnoddau arbenigol yn cael ei sefydlu'n ffurfiol o fis Medi 2021 ac yn defnyddio'r adeilad newydd sy'n cael ei adeiladu ar gyfer Ysgol Uwchradd Whitmore.

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. Yn unol â 'Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008'.

Bydd y Tîm ADY yn penderfynu ar gymhwysedd disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd â gofynion teithio penodol na ellir eu bodloni gydag addasiad rhesymol ar gludiant prif ffrwd.

Bydd disgyblion ADY yn gymwys i gael cludiant am ddim os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddosbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy (disgyblion oedran cynradd) a 3 milltir neu fwy (disgyblion oedran uwchradd) o gyfeiriad cartref y rhieni yn ôl mesur y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerodd Cyngor Bro Morgannwg â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r

cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg yn y cyfeiriad canlynol:
Canolfan Adnoddau Ysgol Uwchradd Whitmore (valeofglamorgan.gov.uk)

**Cyflwyno gwrthwynebiadau:**

Yn unol ag adran 49 y 'Ddeddf', gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hynny yw erbyn diwedd y dydd **9 Chwefror 2021**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i **21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk** neu:

Paula Ham,
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau,
Cyngor Bro Morgannwg,
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holltwn,
y Barri
CF63 4RU

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:

Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau
13 Ionawr 2021